**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (159)**
**Dydd Mawrth, 11 Hydref 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1** - Cynnig i ethol aelodau o dan Reol Sefydlog 8.4 i'r Pwyllgor i ystyried cylch gorchwyl ymchwiliad i'r achosion e-coli diweddar yng Nghymru.

**Eitem 2** - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 3** - Datganiad Busnes

Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Daeargryn

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Eitem 4** - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**Eitem 5** - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ffliw'r Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005

**Eitem 6** - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

**Eitem 7** - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 8** - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005 o dan Reol Sefydlog 26 - ***Ni chyflwynwyd cynnig***

**Eitem 9** - Cynnig i gymeradwyo'r Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)

**Eitem 10** - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru

**Eitem 11** - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru 2003/04

......................................

## Eitem 1 - Cynnig i ethol aelodau o dan Reol Sefydlog 8.4 i'r Pwyllgor i ystyried cylch gorchwyl ymchwiliad i'r achosion e-coli diweddar yng Nghymru

**NDM2604 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 8.4, yn ethol yr Aelodau canlynol i'r Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r achosion E-coli yng Nghymru:

Val Lloyd (Llafur)
Karen Sinclair (Llafur)
Jeff Cuthbert (Llafur)
Jonathan Morgan (Ceidwadwyr)
Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)

Bydd y pwyllgor yn ethol y Cadeirydd o Blaid nas cynrychiolir yn y Cabinet.

......................................

## Eitem 2 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

......................................

## Eitem 3 - Datganiad Busnes

......................................

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM2605 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Hydref 2005 ar ddrafft o Orchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005;

b) Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005;
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd dros yr e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Hydref 2005.

Dogfennau Ategol
Orchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y memorandwm cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

2 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Hydref 2005 ar ddrafft o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005;

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005.

Dogfennau Ategol
Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

3 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Hydref 2005 ar ddrafft o Reoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005 ;

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005.

Dogfennau Ategol
Reoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

4 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Hydref 2005 ar ddrafft o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005;

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005

Dogfennau Ategol
Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ffliw'r Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005

## NDM2606 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn)(Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2)**

**Gwelliant 1- David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu wrth fethiant y Llywodraeth i gynnal stoc o gyffuriau gwrth-firol yng Nghymru.'

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar y Llywodraeth i ddarparu diogelwch priodol, yn arbennig ar gyfer gweithwyr iechyd, i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau brys ac i bobl ddiamddiffyn.'

## NDM2607 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Gorffennaf mewn perthynas â drafft o Orchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005;

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn)(Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2005;
ii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2005;
iii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2005

Dogfennau Ategol
Orchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn)(Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

......................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

## NDM2608 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2005.

## NDM2609 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 27 Medi 2005 ar ddrafft o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2005;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2005

Dogfennau Ategol
Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

.......................................

## Eitem 7 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 i Brif Weinidog Cymru

## NDM2610 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Adrannau 53A(4A) a (6A) Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 28 Atodlen 1 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005).

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y ddirprwyaeth hon gan wybod y caiff y swyddogaethau hynny, fel y bo’n briodol, eu dirprwyo ymhellach i Weinidogion priodol y Cynulliad ac i staff.

Dogfennau Ategol
Gellir gweld copi o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 sy’n dangos y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ar y rhyngrwyd gan ddefnyddio’r hypergyswllt cysylltiedig: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050013.htm. - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

........................................

**Eitem 8 -**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005 - *Ni chyflwynwyd cynnig***

........................................

**Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo’r Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)**

**NDM2611 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 4 Hydref 2005.

**NDM2612 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo’r Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 4 Hydref 2005.

Dogfennau Ategol
Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon

.....................................

## Eitem 10 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru

## NDM2613 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ohirio’r broses o uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â’r Cynulliad hyd nes bydd y Cynulliad yn cymeradwyo cynnig sy’n ymdrin yn foddhaol â gweithrediad swyddogaethau rheoliadol y Bwrdd a phwerau monitro cynlluniau awdurdodau addysg lleol ar gyfer hybu’r iaith.

.....................................

## Eitem 11 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru 2003/04

## NDM2614 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Cymru 2003-2004, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 18 Hydref 2004 ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 4 Hydref 2005.

Dogfennau Ategol
Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Cymru 2003-2004 - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

.....................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 12 Hydref 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**